Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**Clwb yr Urdd** – mi fydd Clwb yr Urdd yn ail gychwyn ar gyfer yr hanner tymor nesaf. Mi fydd y sesiwn gyntaf ar gyfer Blynyddoedd 1, 3 a 5 ar nos Fercher, Ebrill 19eg gyda Bl 2, 4, a 6 ar nos Fercher, Ebrill 26ain. Mi fydd y drefn yn parhau bob yn ail wythnos tan hanner tymor y Sulgwyn.

**Clwb Aml Chwaraeon yr Urdd ar gyfer Blwyddyn 3 a 4** – mae'r Urdd yn cynnig Clwb Aml Chwaraeon yn yr Ysgol Gymraeg pob nos Iau 3.30 – 4.30. Mi fydd angen chi gofrestru drwy'r ddolen isod. Y gost ar gyfer 11 sesiwn fydd £16.50 (mae 30 o lefydd ar gael) Mae'r sesiwn gyntaf ar nos Iau, Ebrill 20fed. https://www.urdd.cymru/cy/chwaraeon/cofrestru-gweithgareddau/

**Gemau Pêl-droed Bl 5 a 6** - mi fydd pob disgybl fu'n cymryd rhan yn yr ymarferion pêl-droed pob nos Fercher yn cael cyfle gynrychioli'r ysgol ar ddydd Mawrth Ebrill 18fed. Mi fydd rhai timau yn chwarae yng nghystadleuaeth yr Urdd ym Mlaendolau (4 tîm) a'r gweddill yn chwarae yn erbyn Plascrug ar gae'r ysgol. Mi fyddwn yn hysbysu'r disgyblion o'r timau heddiw. Mi fydd angen bocs bwyd ar y disgyblion fydd yn chwarae ym Mlaendolau.

**Prydau ysgol am ddim i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 -** cofiwch fod disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 bellach yn medru derbyn prydau ysgol am ddim o ddydd Llun, Ebrill 17eg. Mae llythyr eisoes wedi ei ddosbarthu i rieni / gwarcheidwaid Bl 3 a 4.

**Gwybodaeth am y mislif** – fel rhan o waith urddas mislif yng Ngheredigion, mae'r Awdurdod wedi trefnu 2x gweminar 'urddas mislif' i rieni a gofalwyr, gan Brook. (gweler atodiadau).

**Blwyddyn 3 i Fferm Peithyll** - mi fydd Blwyddyn 3 yn ymweld â Fferm Peithyll yng Nghapel Dewi ar ddydd Mercher, Ebrill 19eg. Cofiwch ddillad ac esgidiau addas (llythyr eisoes wedi ei ddosbarthu gan athrawon Blwyddyn 3). Cost y bws fydd £2.00 y plentyn - mi fydd hyn yn ymddangos yn eich cyfrid ParentPay.

**Nofio** – Mi fydd trefniadau gwersi nofio yn parhau pob ddydd Iau yn ystod tymor yr Haf. Mi fydd Blwyddyn 4 a 5 yn nofio ar ddydd Iau, Ebrill 20fed a Blynyddoedd 3 a 6 ar ddydd Iau, Ebrill 27ain. Mi fydd y drefn yn parhau pob yn ail wythnos am weddill y tymor.

**Digwyddiadau sydd ar y gweill**
**Ebrill 26ain** – Pêl-rwyd yr Urdd
**Mai 3ydd** - barnu gwaith Celf a Chrefft yr Urdd – gweld testunau
**Dydd Llun, Mai 1af** – Gŵyl Banc Calan Mai – yr ysgol ar gau
**Mai 4ydd** - Trawsgwlad Ysgolion Cylch Aberystwyth i flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 ar Gaeau'r Ysgol Gymraeg am 10 o'r gloch y bore. (ail ddyddiad os fydd y tywydd yn anffafriol - dydd Gwener, Mai 5ed)
**Dydd Llun, Mai 8fed** – Gŵyl y Banc ar gyfer coroni Brenin Siarl III – yr ysgol ar gau
**Dydd Mercher, Mai 10fed** – Pêl-droed a phêl-rwyd y cylch.
**Dydd Sadwrn, Mai 13eg** – Trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd ar Gaeau Blaendolau – croeso i bawb o Flynyddoedd 3, 4, 5 a 6.
**Nos Fawrth, Mai 16eg** – Taith Gerdded Noddedig y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am 6 o'r gloch
**Mai 22ain, 23ain a 24ain** – Bl 5 a 6 i Langrannog

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith**

**R C Williams, Pennaeth**
**30/03/2023**

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**Clwb yr Urdd** - Clwb yr Urdd will start again for the next half term. The first session for Years 1, 3 and 5 will be on Wednesday, April 19th with Years 2, 4, and 6 on Wednesday, April 26th. This will continue every other week until Whitsun half term.

**The Urdd Multi-Sport Club for Years 3 and 4** - the Urdd will offer a Multi-Sport Club at Ysgol Gymraeg every Thursday evening 3.30 - 4.30. You will need to register via the link below. The cost for 11 sessions will be £16.50 (there are 30 places available) The first session is on Thursday, April 20th. Activity Registration | Urdd Gobaith Cymru

**Year 5 and 6 Football Games** - all pupils who took part in the football training sessions every Wednesday night will have the opportunity to represent the school on Tuesday April 18th. Some teams will play in the Urdd competition in Blaendolau (4 teams) and the rest will play against Plascrug on the school field. We will inform the pupils about the teams today. The pupils who will be playing in Blaendolau will need a lunchbox.

**Free school meals for Year 3 and 4 pupils** – please remember that Year 3 and 4 pupils can now receive free school meals from Monday, April 17th. A letter has already been distributed to parents / guardians of Year 3 and 4.

**Period Dignity Webinar** - as part of period dignity work in Ceredigion, the Authority has organized 2 x 'period dignity' webinars for parents and carers, by Brook. (see attachments).

**Year 3 to Peithyll Farm** - Year 3 will be visiting Peithyll Farm in Capel Dewi on Wednesday, April 19th. Please remember suitable clothes and footwear (letter already distributed by Year 3 teachers). The cost of the bus will be £2.00 per child - this will appear in your ParentPay account.

**Swimming** - Swimming lessons will continue every Thursday during the Summer term. Year 4 and 5 will be swimming on Thursday, April 20th and Years 3 and 6 on Thursday, April 27th. This will continue every other week for the rest of the term.

**Upcoming events**
**April 26th** – Urdd Netball.
**May 3rd** - judging the Urdd Art and Craft work – see topics
**Monday, May 1st** – May Day Bank Holiday – school closed.
**May 4th** - Aberystwyth Area Schools Cross Country for years 3, 4, 5 and 6 on the Ysgol Gymraeg Fields at 10 o'clock in the morning. (second date if inclement weather - Friday, May 5th)
**Monday, May 8th** – Bank Holiday for the coronation of King Charles III – school closed.
**Wednesday, May 10th** – area football and netball in the cylch.
**Saturday, May 13th** – The Urdd National Cross Country at Blaendolau Fields – all Years 3, 4, 5 and 6 are invited.
**Tuesday evening, May 16th** – Parent Teacher Association Sponsored Walk at 6 o'clock.
**May 22nd, 23rd and 24th** – Years 5 and 6 to Llangrannog.

**If you have any concerns about your child's welfare or education, then please contact me immediately**

**R C Williams,**
**Headteacher 30/03/2023**